Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad**

**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Talu am Ofal Preswyl

Diwygiwyd Mehefin 2018

**Yn y ddogfen hon, cewch chi wybodaeth am y taliadau a godir a'r broses asesu ariannol ar gyfer gofal preswyl / nyrsio unwaith y bydd asesiad wedi dangos bod angen y gwasanaeth arnoch chi. Cyfrifir taliadau yn unol arweiniad Llywodraeth Cymru ar godi tâl am lety preswyl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**Asesu'ch anghenion**

Os aseswyd bod angen gofal cartref preswyl neu nyrsio arnoch chi, byddwn ni'n dod i wybod rhagor am eich anghenion ac yn edrych ar eich sefyllfa ariannol. Yr enw ar y broses hon yw 'Asesiad Ariannol'.

**Yr Asesiad Ariannol**

Er mwyn i ni allu cyfrif faint y bydd angen i chi ei dalu bob wythnos at gost byw mewn gofal preswyl neu nyrsio, bydd gofyn i chi roi manylion unrhyw incwm (megis pensiynau, budd-daliadau ac ati), cynilion ac asedau. Rhaid i chi roi tystiolaeth o unrhyw wybodaeth ariannol er mwyn i ni gwblhau'r asesiad. Os bydd gwahaniaeth rhwng cost go iawn y gofal a'r hyn yr asesir bod modd i chi fforddio'i dalu - byddwn ni'n talu'r gwahaniaeth. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn pennu lefel uchafswm y taliadau wythnosol y bydd yn talu i unrhyw gartref.

Bydd gennych chi hawl i gadw swm o lwfans personol a elwir yn 'isafswm swm incwm' bob wythnos - cewch hi hwn gan y person(au) sy'n ymdrin â'ch materion ariannol. Pennir y swm a gewch chi gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Os ydych chi'n gymwys i gael Credyd Pensiwn, neu unrhyw fudd-dal arall, ond nad ydych yn ei gael ar hyn o bryd, bydd disgwyl i chi wneud cais. Gallwn ni eich helpu chi gyda hyn.

Adolygir eich asesiad ariannol yn awtomatig o leiaf unwaith y flwyddyn, neu pe bai eich mgylchiadau ariannol yn newid.

Defnyddir y wybodaeth a roddwch chi i ni yn unig i gyfrif eich cyfraniad wythnosol. Ni fyddwn yn ei rhoi i unrhyw un nad yw'n rhan o'r broses ariannol heb eich caniatâd chi.

Unwaith y byddwn ni wedi cwblhau ein hasesiad ariannol cewch chi ddatganiad a fydd yn rhoi manylion y tâl a godir arnoch chi.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynghylch asesiadau ariannol a'r modd y'u cyfrifir; cysylltwch â'r 'Tîm Asesu a Chodi' ar (01685) 725069.

**Beth sy'n digwydd i'r cynilon/asedau cyfalaf sydd gen i?**

Os yw'ch cynilion/asedau cyfalaf dros £40,000, gofynnir i chi dalu cost eich gofal yn llawn. Ni ddylech chi roi i ffwrdd unrhyw gyfran o'ch arian chi neu asedau eraill er mwyn lleihau'r swm a fydd gennych i'w dalu; caiff unrhyw symiau o'r fath eu cyfrif yn eiddo i chi o hyd yn ystod yr asesiad ariannol.

Pa un ai ydych wedi trefnu gofal cartref preswyl / nyrsio drosoch chi eich hun ai peidio ac os yw'ch asedau ar fin cwympo o dan £40,000; os ydych am gael cymorth ariannol, bydd angen i chi gysylltu â ni i gael asesiad. Os yw'r cartref lle'r ydych chi'n byw y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bydd angen i chi gysylltu â'r Awdurdod Lleol y mae'ch cartref yn rhan ohono. Os yw ffioedd y

cartref rydych chi'n byw ynddo yn uwch na'r swm uchaf sy'n daladwy gan yr awdurdod lleol, bydd angen i chi ddynodi noddwr trydydd parti i dalu'r swm sydd dros ben. (Gweler taflen ar wahân ar Daliadau Trydydd Parti). Efallai y bydd angen i chi ystyried hyn cyn i chi ddewis eich llety preswyl / nyrsio.

Ni chymerir asedau o dan £40,000 i ystyriaeth at ddibenion asesu.

Bydd modd i Staff y 'Tîm Asesu a Chodi' ateb unrhyw gwestiynau penodol a allai fod gennych chi – ffoniwch (01685) 725069.

**Beth os mai asedau ar ffurf eiddo sydd gen i?**

Fel arfer cyfrifir gwerth eich cartref yn gynilion ac fe'i cymerir i ystyriaeth wrth gyfrif faint y dylech chi dalu am eich gofal. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i'r rheol hon – er enghraifft, os yw'ch partner yn dal i fyw yn y cartref.

Os byddwn ni'n cyfrif gwerth eich cartref yn gynilion, efallai y bydd angen i chi ystyried gwerthu eich cartref er mwyn talu cost eich gofal. Os nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu cost eich gofal cyn i'r eiddo gael ei werthu, efallai y bydd modd i ni helpu. Yn yr achos hwn, byddwn ni'n cynnig cytundeb taliad gohiriedig (gweler y daflen ar wahân am y Cytundeb Taliad Gohiriedig) er mwyn i daliadau a wneir ar eich rhan chi allu cael eu hadfer pan werthir yr eiddo neu pan yw'n newid dwylo.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â'r 'Tîm Asesu a Chodi' – ffôn (01685) 725069.

**Alla i benodi rhywun i weithredu ar fy rhan i?**

Gallwch, mae gennych chi'r hawl i benodi trydydd parti i weithredu ar eich rhan chi ar gyfer yr holl broses asesu neu ran ohoni. Gall hwn fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu berson annibynnol. Dylai fod modd i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol eich cynghori chi am wasanaethau eiriol yn eich ardal chi.

**Alla i ddewis fy nghartref fy hun?**

Gallwch, wrth gwrs. Mae gweithdrefn dewis ffurfiol 'Protocol Dewis' a fydd yn eich helpu chi i dewis y cartref yr hoffech chi fyw ynddo. Caiff hwn ei esbonio i chi gan aelod o'r staff a fydd yn rhan o'r gwaith o'ch helpu chi i drefnu eich anghenion gofal. Cewch chi ddewis rhwng yr awdurdod hwn yn trefnu eich gofal preswyl a dod i gysylltiad â'r cartref gofal trwy gontract, neu wneud cais bod eich gofal chi yn cael ei ddarparu trwy daliad uniongyrchol. Ar gyfer taliad uniongyrchol bydd yr awdurdod hwn yn rhoi taliadau rheolaidd i chi er mwyn i chi brynu eich gofal yn uniongyrchol heb fod yr awdurdod yn sefydlu contract â'r cartref gofal. Ni fydd yr opsiwn hwn ar gael i chi os oes gennych chi anghenion gofal nyrsio.

(Gweler ein taflen ar wahân ynghylch Taliadau Uniongyrchol).

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y ddogfen ynghylch 'Alla i ddewis fy nghartref fy hun?' neu cysylltwch â'r Swyddog Dyletswydd.

Dylid nodi, fodd bynnag, os dewiswch gartref sy'n codi'n fwy na'r uchafswm yr ydym yn barod i'w dalu, bydd rhaid i chi nodi noddwr trydydd parti i dalu'r gwahaniaeth yn y costau – gallai hwn fod,

er enghraifft, yn aelod o’ch teulu chi. (Gweler y daflen ar wahân ynghylch Taliadau Trydydd Parti).

**Beth os na fydda i’n cytuno â chanlyniad yr asesiad ariannol?**

Cewch chi ofyn i rywun adolygu eich asesiad a rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall fod angen ei hystyried. Os na fyddwch chi’n hapus â hyn, mae gennym ni weithdrefn gwyno ffurfiol.

Cewch chi ragor o wybodaeth ynghylch y broses adolygu pan gewch chi wybod yn ysgrifenedig am y tâl a godir arnoch.

**Cyfraniadau heb eu Talus**

Os cewch chi drafferth talu am eich gwasanaethau neu os ydych chi o’r farn ein bod ni’n codi tâl gormodol, cysylltwch â ni’n ddi-oed er mwyn i ni allu adolygu eich amgylchiadau a chywiro unrhyw wallau. Fodd bynnag, os gwrthodwch chi dalu, cymerir camau adfer dyled pan fo’n berthnasol, a allai ychwanegu taliadau pellach at unrhyw ddyledion sydd heb eu talu.

Os rhywun arall sy’n ymdrin â’ch amgylchiadau ariannol chi, neu os rhywun arall sy’n cael eich udddaliadau,

nhw fydd yn gyfrifol am dalu eich costau gofal. Os na thalan nhw eich costau chi, cymerir camau adfer dyled yn eu herbyn nhw.

**Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?**

Os oes angen i chi gael rhagor o wybodaeth am gynnwys yn y daflen hon, cewch chi gysylltu â’r Tîm Asesu Ariannol a Chodi am help neu gyngor ar 01685 725069.

Fel arall, cewch chi geisio cyngor annibynnol gan eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu fudiad gwirfoddol arall.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni yma:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,

Canolfan Ddinesig,

Stryd y Castell,

Merthyr Tudful

CF47 8AN

Ffôn: 01685 725000

**Y Tîm Asesu a Chodi**

Ffôn: (01685) 725069

Mae’r wybodaeth hon ar gael ar ffurfiau eraill ac mewn ieithoedd eraill ar gais